

Sut mae cymryd rhan

Bydd Gŵyl Arloesedd Cymru yn arddangos arloesedd a'r rôl hollbwysig mae'n ei chwarae yn nhwf economaidd y genedl.

Ein nod yw dod â chynifer â phosibl o gwmnïau ac unigolion ynghyd yng Nghymru sy'n cyfrannu cymaint drwy eu gweithgarwch arloesol a'u ffyrdd gwreiddiol o feddwl. Rydym eisiau cyflwyno 'pecyn' o weithgareddau i'r byd yn dangos yr hyn sydd gan Gymru i'w gynnig. Er enghraifft:

- Os ydych chi'n fuses, efallai y gallech drefnu diwrnod agored ar eich safle
- Os ydych chi'n brosiect Prifysgol, fe allech drefnu gweithdy undydd gyda'ch partneriaid o'r diwydiant neu rywle arall
- Efallai y gallech drefnu taith neu weithgaredd rhyngweithiol i bobl ifanc yn eich ardal? Beth am roi cynnig ar eu hysbrydoli i fod yn rhan o'ch maes gwaith arbennig yn y dyfodol?

Mae hyd yn oed darlithoedd rhyngweithiol ar dechnoleg ac arloesedd yn codi yng Nghymru. Does dim cyfyngiad ar arddull neu fath y gweithgaredd rydych eisiau ei wneud.

I fod yn rhan o Wyl Arloesedd Cymru, neu os oes gennych ragor o gwestiynau, ewch i'n gwefan http://www.festivalofinnovation.org/index_cy.html i gofrestru eich diddordeb neu e-bostiwch ni yn info@festivalofinnovation.org.

Er mwyn gwneud yn siŵr bod yr ŵyl yn dangos popeth sy'n wych am arloesi yng Nghymru, rydym wedi llunio rhywfaint o ganllawiau syml i chi eu hystyried.

I gymryd rhan yng Ngŵyl Arloesedd Cymru, rydym yn gofyn i'ch gweithgaredd arfaethedig:

- Gael ei gynnal rhwng 19^{eg} – 30^{ain} Mehefin 2017
- Arddangos gweithgaredd arloesol*

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu awgrymiadau, e-bostiwch ni yn info@festivalofinnovation.org. Dilynwch ni ar twitter @WFOInnovation i gael yr holl wybodaeth ddiweddaraf.

**Caiff arloesedd yn yr enghraifft hon ei ddiffinio fel defnyddio syniadau newydd yn llwyddiannus. Gallai fod yn gynnyrch neu'n wasanaeth newydd, neu'n ddatblygiad newydd i gynnyrch neu wasanaeth presennol. Gall arloesedd hefyd leihau'r math a faint o ddeunydd sy'n cael ei ddefnyddio yn y broses gynhyrchu a mynd i'r afael â materion cylch bywyd cyfan fel aildefnyddio ac ailweithgynhyrchu. Mae'n rhaid ir arloesedd ddod o Gymru.*